

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

### **Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor - Festri Capel Soar, Penygroes, Nos Fawrth y 8ed o Fai 2018.**

1. **Preseanol:** Ffion Jones (Cadair) – Nantlle; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones – Talysarn; Hefina MW Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Dafydd Thomas – Nebo; Justin Davies, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams – Penygroes; Judith Humphreys – Cynghorydd Sir / **Ymddiheuriadau:** Nerys Williams, Dylan Herbert – Penygroes; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir.
  2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir:** Harry Wyn Owen, Ffion Jones – eitem 8 Cynllunio.
  3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Ebrill.** Gwyndaf yn datgan cywirdeb y cofnodion ac OP Huws yn eilio.
  4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Derbyniwyd gohebiaeth gan YGC – trefnu cyfarfod is-bwyllgor mynwentydd (agored i bawb) 22/5/18 am 7.00.
  5. **Cynghorwyr Sir.** Cafwyd adroddiad gan Judith yn ystod y cyfarfod blynyddol.
  6. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Cadarnhawyd a llofnodwyd.
  7. **Cyfarfodydd is-bwyllgor.** OP Huws yn adrodd yn ol o gyfarfodydd is-bwyllgorau. Glynllifon – trafodaethau yn parhau; RW Parry – Cyngor Gwynedd wedi paratoi drafft cyntaf cais grant loteri ar ein rhan – y brosiect yn cynwys cydweithio ysgolion, codau QR – cyfarfod pellach brynhawn dydd Gwener; Eglwys Talysarn – trafodaethau yn parhau gyda grwp Cynefin; Tir Trem yr Wyddfa – D Watts yn parhau i fod mewn trafodaethau.
  8. **Cynllunio.** C18/0271/22/LL – 1 Fron Dirion Nebo – estyniad ochr, modurdy, lolfa haul - caniatu; C18/0278/22/LL – 2 Glan Aber, Ffordd Rhedyw – estyniad - caniatu; C18/0306/22/LL – Ty deulawr, mynedfa, tanc septic – tir ger Swyn y Nant, Nantlle – Ffion Jones a Harry Wyn Owen yn datgan diddordeb a gadael yr ystafell. Penderfyniad y Cyngor – caniatu.
  9. **Gohebiaeth.**
- \*Cyngor Gwynedd:**
- \*Ymatebion – cynllunio 106; Priffyrdd; Darllenwyd yr ohebiaeth.
  - \*Gorchymyn cau amryw ffyrdd ardal Arfon. Er gwybodaeth.
  - \*Memorandwm cyd-ddealltwriaeth ffioedd claddu plant. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn codi ffi claddu ar blant.
  - \*Cydweithio i Wella ein Cymunedau – Cyfarfod Delwedd Dyffryn Nantlle 9/5/18. Y Clerc yn mynychu.
  - \*Mapio'ch Cyngor. Er gwybodaeth.
  - \*Cynllun Haf Dyffryn Nantlle. Diweddariad. Cyfarfodydd yn parhau.
  - \*Newidiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd. System gyfrifiadurol – y Clerc i gysylltu am fanylion pellach.
  - \*Elin Evans – Treftadaeth y Byd Llechi. Ei gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol – y Clerc wedi cysylltu gyda hi gyda dyddiadau cyfarfodydd.
  - \*Clybiau Ieuencid – Nid oedd y llythyr gwreiddiol wedi ei yrru i Gyngor Cymuned Llanllyfni, a derbyniwyd ymddiheuriad am hyn gan Gyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd yn gofyn i Gynghorau Cymuned edrych ar fodolau gwahanol. Iwth Pen yn rhedeg ym Mhenygroes ers blynyddoedd, ond dim ond am gyfnod byr pob blwyddyn. Penderfyniad y Cyngor Cymuned ar ol trafodaeth oedd aros i weld beth fydd gwelliant Cyngor Gwynedd i'r cynnig, a bod ymateb i'r cynnigion gwreiddiol yn rhy fyr-rybudd. Mae angen ystyried yr Urdd a Chlybiau Ffermwyr ifanc.
- \*Arall**
- \*Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon – gwahoddiad i lansiad dydd Iau 10/5 Porthmadog. Derbyn.
  - \*Un Llais – Cefnogaeth ariannol 2018-19; Darlun o Ofal Sylfaenol yng Nghymru; Rhwystrau Iaith – mynediad I wasanaethau; Adolygiad CTC – 'galw heibio'; Ymgynghoriad newidiadau I ganiatau Seilwaith; Ymateb Un Llais I Adolygiad CTC; Neges gan Panel Adolygiad Annibynnol Cymru; Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais 4/7 Cae'r Sioe Frenhinol; Deall nodweddion brgus a gwydnwch I ansicrwydd mewn cymunedau gwledig; Arweiniad Gwasanaethau Un Llais. Derbyn.
  - \*Heddlu – swyddog Cymraeg ar gael i ddod i gyfarfod y Cyngor fis Hydref.
  - \*Cwyn am Knotweed a thyllau ffordd. Cwyn wedi ei dderbyn drwy ffurflen gyswllt gwefan y Cyngor Cymuned – gyrrwyd y manylion ymlaen i swyddogion Cyngor Gwynedd.
  - \*Dorothea – diweddariad. Er gwybodaeth.

**10. Diogelu Data** – diweddariad, ffioedd. Y Clerc yn mynychu cwrs yn ystod y mis.

**11. Cytundeb Cyflog 2018-19.** Derbyn. Y Clerc i drefnu fod y raddfa cyflog yn cael ei diweddaru, ac ol ddyddio i Ebrill.

**12. Materion Pentrefi Talysarn** Tyllau o Bryncelyn i Ffordd Nantlle; **Nebo** Lonydd yn torri fyny – Penisa'r Lon wrth Hendre Wen, Pant y Gog ger Tu Hwnt I'r Afon, ochrau'r lonydd yn torri. Twll Pontcrychddwr dal yno. **Penygroes** – cyflwr y lon tu allan i Roberts ac Owen yn wael. Car yn parcio ar y pafin dros y ffordd i Spar – dim lle i goets basio heb sefyll allan i'r ffordd, ac yn beryglus; Mortar wedi dod i ffwrdd o fanol ger rhif 1 Styd yr Wyddfa. **Nantlle** Ysgol Nantlle wedi trefnu gwersi beics, a bydd y Cyngor Cymuned yn cyflwyno goleuadau beis i'r disgyblion sydd wedi cymryd rhan.

**13. Llwybrau a Mynwentydd. Materion yn ymweud a'r heddlu.** Cais am fainc MacPelah – trafodwyd – dim ar hyn obryd gan bod y Cyngor yn y broses o drafod cychwyn y cynllun ehangu ; Ffioedd Claddu – trafod yn y cyfarfod is-bwyllgor; Pris Arwyddion Mynwentydd – wedi gofyn am ddau bris arall; Holi'r heddlu os oes gwybodaeth am y car fu ar dan yn Llanllyfni ac hefyd trosglwyddo cwyn fod plant yn dringo ar doeau adeiladau.

#### **14. Materion ariannol**

**\*CYFRIFON CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI 2017-2018.** Cyflwynwyd y cyfrifon llawn, ac fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor.

\*Anfonebau: A Johnson – derbynebau; A Johnson – Ffon/Rhyngrywyd – derbyn. **Toiledau Cyhoeddus** cynllun amgen – cadarnhawyd cyfraniad y Cyngor Cymuned o £500 y flwyddyn hon – gofynwyd i'r Clerc yrru taliad i Poveys a llythyr i holi sut mae'r trefniadau yn gweithio a manylion oriau agor.

\*Ceisiadau am arian – diolchiadau. Dim cais mis yma.